Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Mehefin 5ed, 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad

Gobeithio eich bod wedi cael amser i fwynhau'r tywydd braf ac wedi medru gorffwyso ychydig yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Genedalaethol yr Urdd wythnos ddiwethaf, yn Ninbych, rwy'n falch iawn o lwyddiannau a holl ymdrechion ein disgyblion a'n staff. Diolch yn arbennig i'r rhieni a'r staff a fu ar y maes yn ystod yr wythnos i gefnogi'r disgyblion mewn amrywiaeth o gystadleuthau.

Isod, fe welwch gyfeiriad at rai o'r gweithdrefnau a'r rheolau y byddwn yn rhoi sylw iddynt dros yr wythnosau nesaf. Gofynnaf yn garedig i chi ein cefnogi gyda'n hymdrechion i osod safonau uchel ymhob agwedd o fywyd yr ysgol drwy atgyfnerthu pwysigrwydd y rheolau isod gyda'ch plentyn / plant. Byddaf hefyd yn eich hysbysu yn y llythyr am ddyddiadau a digwyddiadau pwysig yn ystod yr hanner tymor nesaf.

Presenoldeb: Ysgrifennais atoch ar ddiwedd yr hanner tymor ddiwethaf i rannu fy mhryder am sefyllfa presenoldeb yr ysgol sydd yn bryder a rennir yn genedlaethol. Mae COVID-19 wedi effeithio ar % presenoldeb yr ysgol ac fe fyddwn yn gweithredu strategaeth fydd yn rhoi sylw i wella presenoldeb yr ysgol. Mae cydberthyniad cryf rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad academaidd disgyblion. Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol am ba bynnag reswm yna cofiwch gysylltu â'r ysgol yn esbonio'r rheswm am yr absenoldeb. Caiff hyn ei gofnodi ar system gofrestru'r ysgol fel absenoldeb awdurdodedig. Os fydd presenoldeb eich plentyn yn destun pryder yna fe fyddwn yn cysylltu'n ffurfiol â chi i drafod ein pryder a dulliau i'ch cefnogi i wella'r presenoldeb.

Prydlondeb: Mae prydlondeb i'r ysgol yn y bore yn hanfodol bwysig gan fod gwers gyntaf y dydd yn cychwyn am 0845. Mae'r cyfnod cofrestru boreol wedi ei amserlenni ar gyfer 1025, felly mae unrhyw un sydd yn cyrraedd yr ysgol ar ôl 0845 yn colli rhan o'r wers gyntaf all effeithio ar gynnydd y plentyn yn y pwnc arbennig hwnnw.

Gwisg ysgol: Disgwylir i bob disgybl wisgo'r wisg ysgol arferol. Fe fyddwn yn cysylltu â chi os nad yw gwisg eich plentyn yn cydymffurfio â rheol y wisg ysgol. Os oes problem yn ymwneud â'r wisg, yna ysgrifennwch nodyn cryno er mwyn i'ch plentyn fedru ei ddangos i'r athro sydd yn herio'ch plentyn am y wisg. Fe fyddwn yn caniatáu i ddisgyblion wisgo siorts neu 'sgorts' addysg gorfforol (gyda bathodyn yr ysgol) i'r ysgol am hanner tymor olaf y flwyddyn academaidd, yn y gobaith y cawn ychydig o dywydd braf! Cofiwch, bydd disgwyl i bob plentyn gadw at reolau'r wisg ysgol ym mis Medi, felly peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr cyn archebu eitemau newydd trwy ein cyflenwyr YC Sports dros gyfnod yr haf. Cofiwch fod grant ar gael drwy'r Awdurdod Lleol ar gyfer gwisg ysgol.

Gwisg addysg gorfforol: Ni chaniateir unrhyw eitemau o git sydd heb fathodyn yr ysgol arnyn nhw. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn nodyn i'r athro os oes rheswm am ddiffyg cit neu reswm dilys pam na all y disgybl gymryd rhan yn y wers. Mae gormod o ddisgyblion yn gwisgo cit addysg gorfforol yn ddyddiol yn hytrach na'r wisg ysgol, felly gofynnaf yn garedig i chi fonitro hyn gartref. Os nad yw'r wisg addysg gorfforol gywir gyda'ch plentyn, tybed a fedrwch archebu'r eitemau cywir? Mae croeso i ddisgyblion Blwyddyn 9 brynu cit Cyfnod Allweddol 4 i'w wisgo yn ystod yr hanner tymor olaf.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Gemwaith: A fyddech cystal ag atgoffa eich plentyn am reol 'dim gemwaith' yr ysgol? Parhewch i wirio eich plentyn yn y bore cyn iddynt adael am yr ysgol i sicrhau nad ydynt yn gwisgo gemwaith i'r ysgol. Yr amser delfrydol i ddisgyblion gael tyllau yn eu clustiau yw ar gychwyn gwyliau'r haf er mwyn i'r tyllau wella mewn pryd ar gyfer cychwyn tymor yr hydref.

Cymreictod: Parhewch i annog eich plentyn i siarad Cymraeg mor aml a phosib yn yr ysgol a thu hwnt. Mae cefnogaeth rhieni yn hanfodol bwysig yn y gwaith hwn, yn bennaf i atgyfnerthu'r neges ei bod hi'n allweddol i ddyfodol addysgiadol pob plentyn sydd yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg eu bod nhw'n ymarfer yr iaith gyda'u cyfoedion yn gyson. Mae gwyl 'Tafwyl' sydd yn cael ei gynnal yng nghastell Caerdydd ar benwythnos, Mehefin 18ed a 19eg yn gyfle gwych i'n disgyblion fwynhau amrywiaeth o weithgareddau am ddim trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith mewn awyrgylch gwbl anffurfiol.

Iaith anweddus: Rwy'n parhau i bryderu am faint o iaith annerbyniol, amhriodol ac anweddus sydd i'w glywed ymysg disgyblion â'r effaith negyddol y mae'r iaith hyn yn medru ei gael ar les unigolion. Mae staff yn parhau i ddelio â nifer o achosion o iaith annerbyniol ac anghyfreithlon sydd yn sarhau pobl â nodweddion a ddiogelir e.e. anabledd, cred, rhywioldeb, ethnigrwydd a.y.b. Gofynnaf yn garedig am eich cefnogaeth drwy addysgu eich plentyn am ddifrifoldeb a pheryglon defnyddio ieithwedd annerbyniol ac amhriodol yn enwedig os ydych yn clywed iaith debyg yn y cartref. Drwy gydweithio y mae'n hanfodol bwysig ein bod yn rhoi 'stop' i'r math yma o ieithwedd annerbyniol.

Ffonau symudol: Mae'r cam-ddefnydd o ffonau symudol wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf sydd yn groes i reol yr ysgol ar y defnydd o ffonau symudol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwrthod cydymffurfio gyda aelodau staff sydd yn eu herio am eu defnydd o'r ffon sydd yn gwaethygu'r sefyllfa ac yn arwain at alwadau di-angen at rieni. Eto, gofynnaf yn garedig i chi atgyfnerthu ac egluro pwysigrwydd ein rheolau ysgol gyda'ch plentyn yn ystod y gwyliau. Caniateir y defnydd o ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth yn unig gyda chaniatâd athro ar gyfer cefnogi'r broses ddysgu. Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Os oes angen i ddisgybl gysylltu gartref am unrhyw reswm, dylent fynd i'r ardal cynnydd i ofyn am ganiatâd a gwneud yr alwad dan oruchwyliaeth. Bydd athrawon yn gofyn i'r unigolion hynny sydd yn herio'r rheol defnydd o ffon symudol i roi'r ffon mewn amlen a'i gasglu o'r ardal cynnydd ar ddiwedd y dydd.

Vapes: Y neges clir am 'vapes' yw nad ydynt yn dderbyniol yn yr ysgol a bydd unrhyw ddisgybl sydd yn defnyddio 'vape' neu sydd yn dod a 'vape' i'r ysgol yn derbyn cosb addas. Mae 'vapes' yn ymddangos yn ddeniadol i bobl ifanc gan eu bod yn blasu yn felys ond maent yn llawn nicotin a chemegau eraill sydd yn niweidiol i'r corff yn enwedig i bobl ifanc. Nid oes digon o dystiolaeth eto ar gael i brofi effeithiau hir dymor sugno 'Vape' ond mae'r ffaith eu bod yn anghyfreithlon i bobl ifanc dan 18 oed yn tystio i ba mor beryglus ydynt. Mae hyn yn broblem cymdeithasol sydd wedi tyfu'n gyflym ar draws y byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ymysg pobl ifanc gan eu bod yn hawdd eu prynu

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

ar-lein ond rwy'n benderfynol o'u cadw o'r ysgol. Gofynnaf yn garedig am eich cefnogaeth wrth i ni fynd i'r afael a'r broblem gynyddol hyn.

Trefniadau'r hanner tymor olaf (Mehefin 6 – Gorffennaf 21) a rhai dyddiadau a digwyddiadau pwysig:
Profion Cenedlaethol CA3: fe fyddwn yn cynnal y profion yn ystod gwersi i ddisgyblion Bl 7, 8 a 9 yn ystod yr hanner tymor er mwyn creu gwaelodlin sgiliau i adnabod pa ddisgyblion fyddai'n elwa o dderbyn ymyraethau ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd yn benodol.

Dyddiad	Wythnos	Digwyddiad
6/6 – 10/6	1	Arholiadau allanol TGAU, BTEC, UG a Safon Uwch yn parhau.
13/6 -17/6	2	Blwyddyn 12 yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer gwersi.
18/6 – 19/6		Gwyl 'Tafwyl' yng nghastell Caerdydd.
20/6 – 24/6	1	
27/6 - 1/7	2	27/6: Diwrnod blasu'r 6ed dosbarth i ddisgyblion Bl 11. 29/6: HMS i'r staff. Dim ysgol i ddisgyblion.
4/7 - 8/7	1	5/7: Mabolgampau'r ysgol yn stadiwm athletau Lecwyth. 8/7: Cwis a pitsa CRASP.
11/7 – 15/7	2	Alldaith Gwobr Dug Caeredin – Efydd (1). Blwyddyn 10. Manylion i ddod.
18/7 – 21/7	1	Wythnos profiad gwaith i fyfyrwyr Bl 12. Alldaith Gwobr Dug Caeredin – Efydd (2). Blwyddyn 10. Manylion i ddod. 21/7: Diwrnod olaf y tymor.

Cofion cynnes,

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

June 5th, 2022

Dear Parent / Guardian

I hope that you found time to enjoy the fine weather and to relax a little last week. Congratulations to all members of our school community who participated in the Urdd National Eisteddfod last week, I am proud of everyone's efforts and success, well done to all! Thank you to all members of staff and parents who supported our pupils on the 'maes' last week. During the next half-term we will give attention to some general school rules which are mentioned below. I would welcome and appreciate your support as we try to maintain high standards across all aspects of the school. Please could you reinforce the importance of these school rules with your child or children? This letter also reminds you of some important information and dates relating to the remainder of the summer term.

Attendance: You will recall that I wrote to you at the end of the last half term sharing my concern at the effect of COVID on our pupil attendance. This is a concern that is shared nationally and is receiving Government and Local Authority attention. We shall focus on improving pupil attendance this term and implement an 'improving attendance' strategy. It come as no surprise that there is a strong correlation between attendance and academic attainment. Please contact the school with details of your child's absence so an accurate record of authorised attendance can be kept on SIMS. If your child's absence rate becomes a concern to us, we shall contact you to discuss our concerns and ways to support you in improving your child's attendance.

Punctuality: Punctuality to school is essential as the first lesson of the day begins at 0845. The formal registration period is timetabled for 1025, which means that any pupil who arrives late for school in the morning loses a significant part of the first lesson which could impact on the progress of the pupil in that particular subject.

School uniform: Pupils are expected to wear the normal school uniform to school. We will be contacting individual parents to assist us in improving the uniform situation if we have concerns about individual pupils. If you are experiencing problems accessing uniform, please write a note for your child in order for it to be shown to the teacher who is challenging your child. We will allow pupils to wear their school P.E. shorts and skorts to school this half term in the hope that we will have some warm weather! Please remember to order new items of school uniform from YC Sports in readiness for September. Pupil Development Grants (school uniform) are available through the Local Authority.

PE kit: Items of P.E. kit without the school badge are not acceptable. Could you please write a brief note for the teacher if your child has no kit or cannot participate in a lesson for any reason? There are several pupils who are wearing their PE kit to school daily rather than wearing their uniform, therefore would you please monitor the situation at home? Should your child not have the appropriate kit, would you please consider ordering items of kit? Pupils in Year 9 are welcome to wear new Key Stage 4 kit in readiness for September.

Jewellery: Could you please continue to remind your child of our 'no jewellery' rule? Please continue to check that your child is not wearing jewellery as he or she leaves for school in the morning. The best time to have your child's ears pierced is at the beginning of the summer holiday, allowing time for their ears to heal by September.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

The Welsh language: We prioritise the use of the Welsh language amongst our pupils to improve their linguistic skills and to instil in them the confidence to speak Welsh with their friends and peers. The support of parents in this matter is critical, especially in reinforcing the key message that it is vital for all pupils in Welsh-medium education to regularly practise and use the language, and that attending lessons and completing written tasks in Welsh is not enough in itself to develop confidence in the use of the language. 'Tafwyl' is a free Welsh language festival held in the grounds of Cardiff castle, organized by 'Menter Caerdydd' with activities for all the family. It is a well-established festival which will be held this year during the weekend, June 18th, 19th. Please encourage your child/children to attend with their friends so that they can use their Welsh language skills in a social and informal setting. If you haven't been to Tafwyl in the past, try and make the effort to attend this year, you don't have to be a Welsh speaker to enjoy the music, food and drink and all the merchant stalls.

Use of unacceptable language in school: I've highlighted in the past, the rise in the use of swearing and unacceptable language amongst our pupils and the negative impact that this sort of behaviour can have on an individual's wellbeing. Colleagues regularly have to deal with incidents of unacceptable and unlawful language directed at others with protected characteristics, such as ethnicity, creed, disability and sexuality. I would urge parents to discuss the seriousness and dangers of using inappropriate and unacceptable language with their child, particularly if you've heard your child use similar language at home. Collectively, we must put a stop to this sort of unacceptable behaviour.

Mobile phones: We've seen a rise in the number of incidents of mobile phone related issues that we've had to address over recent months with a growing number of pupils challenging our school rule on the use of phones. This challenging behaviour often results in needlesss escalation which can lead to further sanctions and a phone call to parents. Again, I would kindly ask you to support us in our aim of re-establishing our school rules and to speak to your child about the importance of up-holding school rules to ensure the best possible climate for learning. The use of mobile phones is not permitted in school apart from in lessons under the direction and supervision of the teacher for learning purposes. If your child needs to make a call during the day, they must go the progress area and explain the situation to a member of staff who will then supervise the pupil whilst making the call. Pupils who challenge the no mobile phone rule regularly will be asked to place their mobile phone in an envelope which will be kept in the progress area for collection at the end of the school day.

Vapes: Vapes are not acceptable in school and any pupil who uses a vape on the school premises will face a serious sanction. Vapes can appear appealing to young people, the colourful packaging and fruity flavours give them a harmless appearance; however, they are full of nicotine and other harmful chemicals which is why they are only meant to be sold to adults (18+). This is a societal issue which has grown globally over the past few years amongst young people as they can be bought easily on-line. I am determined to keep them from school and I would ask you to be vigilant at home for any signs of vaping so that we can tackle this issue together.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Arrangements and some important dates for the summer term (June 6 – July 21):

KS3 National Tests: we will conduct the annual national tests during lessons with pupils in Years 7, 8 and 9 during the next half term. Outcomes from these tests will allow us to determine which pupils would benefit from some additional literacy and numeracy support.

Date	Week	Event
6/6 – 10/6	1	External exams continue: GCSE, BTEC, AS and A Level.
13/6 -17/6	2	Year 12 return to school following exams.
18/6 – 19/6		'Tafwyl' festival in the grounds of Cardiff castle.
20/6 – 24/6	1	
27/6 - 1/7	2	27/6: 6th form taster day for Year 11 students. 29/6: INSET for staff. No school for pupils.
4/7 - 8/7	1	5/7: Sports day at Leckwith athletics stadium. 8/7: Quiz and pizza night organized by CRASP.
11/7 – 15/7	2	Year 10 bronze DofE expedition (1). Details to follow.
18/7 – 21/7	1	Year 12 work experience week. Year 10 bronze DofE expedition (2). Details to follow. 21/7: Last day of summer term.

Best wishes,

John Hayes
Headteacher